

Trwyddedau Parcio i Ofalwyr - Telerau ac Amodau

- Caiff pobl sy'n ymweld i fodloni anghenion iechyd a gofal preswylwyr fynediad dan y cynlluniau. Gall y preswylwyr hynny sy'n byw mewn parth parcio i breswylwyr yn unig wneud cais am drwydded parcio i ofalwyr ar gyfer teulu neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r eiddo i roi gofal.
- Bydd angen tystiolaeth o fudd-dal sy'n gysylltiedig â gofal fel Lwfans Gofalwr neu Lwfans Gweini. Pan na fydd hyn yn bosibl, gellir cyflwyno nodyn meddyg yn cadarnhau'r angen am ofal.
- Dim ond i gerbyd dynodedig a nodir gan Farc Cofrestru Cerbyd (MCC) y rhoddir Trwyddedau Parcio i Ofalwyr.
- Trwydded parcio rithwir fydd trwydded a bydd y drwydded yn cynnwys y manylion sydd eu hangen gan y cyngor.
- Dim ond yn y parth a nodir ar y drwydded/y llythyr sy'n cadarnhau'r drwydded y gellir defnyddio Trwyddedau Parcio i Ofalwyr.
- Bydd yn dal angen i breswylwyr sy'n gwneud cais am Drwydded Parcio i Ofalwyr brofi eu bod yn byw yn y cyfeiriad yn y parth parcio i breswylwyr yn unig drwy gyflwyno bil y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol, bil trydan/nwy/dŵr dyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf, cytundeb tenantiaeth, datganiad morgais, cyfriflen banc, dogfennau yswiriant neu drwydded yrru.
- Dylai preswylwyr gadarnhau enw eu gofalwr enwebedig a'r Marc Cofrestru Cerbyd ar gyfer y drwydded. Bydd i'r gofalwr gyflwyno tystiolaeth yn dangos ei fod yn berchen ar y cerbyd, naill ai drwy lyfr log V5, neu ddogfennau yswiriant sy'n dangos enw'r gofalwr enwebedig.
- Caiff Trwyddedau Parcio i Ofalwyr eu rhoi yn rhad ac am ddim. Gellir rhoi uchafswm o 1 Drwydded Gofalwr fesul eiddo.
- Caiff Trwyddedau Parcio i Ofalwyr eu hadnewyddu'n flynyddol a byddant yn ddilys am 12 mis. Caiff y drwydded ei rhoi a'i hadnewyddu ar gais unigolyn a thrwy ffurflenni cais priodol.
- Wrth barcio cerbyd mewn man parcio i breswylwyr yn unig, ni ddylid ei ddefnyddio i werthu na llogi unrhyw wasanaeth.
- Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i derfynu trwyddedau a gaiff eu defnyddio'n dwyllodrus neu amhriodol, heb ad-dalu unrhyw gostau.
- Mae'n drosedd ffugio neu feddu ar drwydded wedi'i ffugio neu wneud datganiad ffug i gael trwydded.
- Ni ellir trosglwyddo trwyddedau os byddwch yn symud i gyfeiriad arall.
- Rhaid i Drwyddedau Parcio i Ofalwyr gael eu canslo pan na fydd y deiliad yn berchennog ar y cerbyd perthnasol mwyach neu pan nad yw'n byw yn y cyfeiriad y mae'r drwydded yn gysylltiedig ag ef mwyach.
- Caiff ceisiadau am Drwyddedau Parcio i Ofalwyr eu hoedi os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir.

Gellir amrywio'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd, ond bydd unrhyw breswlydd sy'n gwneud cais am drwydded yn cael esboniad clir o'r telerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i'r drwydded yn adeg honno.

Mae telerau ac amodau llawn ar gyfer trwyddedau ymwelwyr ar gael ar [wefan y cyngor](#).